Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

Polisi Addysg, Plant a Thrais
Crynodeb o'r Argymhellion

1 **Canllawiau Diwygio Premiwm Disgyblion yn Lloegr a chanllawiau Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru i annog ysgolion a lleoliadau AP/EOTAS i fuddsoddi mewn lleihau trais yn seiliedig ar dystiolaeth.**

Pam?

A. Ar hyn o bryd nid oes digon o wybodaeth am sut i leihau cyfranogiad plant mewn trais.

B. Gall trais ac ofn trais effeithio'n negyddol ar ganlyniadau addysgol.

I'W GADARNHAU
£0

2 **Darparu £100m o gyllid wedi'i dargedu dros bum mlynedd i ddarparu gweithgareddau lleihau trais sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sydd fwyaf mewn perygl o gymryd rhan mewn trais (drwy SAFE neu gronfa TARGET newydd).**

Pam?

A. Mae diffyg cyllid yn atal lleoliadau addysg rhag buddsoddi mewn gweithgareddau lleihau trais sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r plant sydd fwyaf mewn angen.

B. Mae trais wedi'i ganolbwyntio mewn ardaloedd penodol, felly dylid targedu cyllid at ardaloedd lle ceir lefelau uchel o drais.

I'W GADARNHAU
£100m
(dros bum mlynedd)

3 **Diwygio pecynnau cymorth arolygu arfaethedig Ofsted i asesu sut mae lleoliadau yn cefnogi plant sydd wedi'u hatal ac yn diogelu plant rhag trais.**

Pam?

A. Mae atal a gwahardd yn ffactorau risg allweddol ar gyfer cymryd rhan mewn trais yn ddiweddarach. Mae cyfraddau'r ddau yn cynyddu, gyda gwahaniaethau hiliol amlwg yn parhau.

B. Ar hyn o bryd nid yw ysgolion yn darparu digon o gefnogaeth i blant sydd wedi'u hatal dros dro.

C. Mae lleoliadau addysg mewn sefyllfa unigryw i ddiogelu plant rhag cymryd rhan mewn trais. Fodd bynnag, nid ydynt yn ystyried trais fel mater diogelu.

I'W GADARNHAU
£0

4 **Ymestyn y Tasglu Arbenigol Darpariaeth Amgen (APST) am bum mlynedd yn Lloegr a dechrau ei dreialu yng Nghymru.**

Pam?

A. Mae plant mewn AP mewn mwy o berygl o gymryd rhan mewn trais.

B. Mae APST yn lleihau absenoldeb plant (lleihau eu risg o gymryd rhan mewn trais).

I'W GADARNHAU
£32m
dros bum mlynedd yn Lloegr
£1.6m
i dreialu am flwyddyn yng Nghymru

Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

5 Treialu a chynyddu grant hyfforddi arweiniol trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) mewn ysgolion uwchradd, colegau a lleoliadau AP/EOTAS.

Pam?

A. Mae llawer gormod o blant yn profi trais mewn perthynas.

B. Gall gweithgareddau atal trais mewn perthynas amddiffyn plant rhag cymryd rhan mewn trais.

C. Mae rhy ychydig o blant yn adrodd eu bod yn derbyn gwersi ar bynciau fel cydsyniad, aflonyddu a pherthnasoedd iach.

D. Ar hyn o bryd nid oes gan athrawon yr hyder a'r arbenigedd i addysgu plant am drais mewn perthynas.

I'W GADARNHAU

£1m ar gyfer peilot mewn

£35m i weinyddu'r rhaglen yn llawn yn Lloegr:

£2m i weinyddu'r rhaglen yn llawn yng Nghymru

6 Diwygio'r Cymwysterau Proffesiynol Cenedlaethol presennol (NPQs) i gynnwys ffocws ar amddiffyn plant rhag trais a sefydlu NPQ newydd ar gyfer cadw plant yn ddiogel.

Pam?

A. Mae lleoliadau addysg yn chwarae rhan allweddol wrth ddiogelu plant rhag trais.

B. Nid yw'r hyfforddiant diogelu presennol yn rhoi'r hyder a'r wybodaeth i athrawon ac arweinwyr diogelu dynodedig (DSLs) i ddiogelu plant sy'n ymwneud â thrais neu sy'n cael eu heffeithio gan drais.

I'W GADARNHAU

£0 ar gyfer diwygiadau NPQ

I ariannu DSLs i gwblhau'r NPQ newydd mewn lleoliadau wedi'u targedu:

£2m yn Lloegr,

£100k yng Nghymru

7 Cynyddu ymyriadau gwella presenoldeb effeithiol a chyhoeddi strategaeth i wella presenoldeb mewn AP yn Lloegr ac EOTAS yng Nghymru.

Pam?

A. Mae bod absennol o'r ysgol yn cynyddu'r risg o gymryd rhan mewn trais yn ddiweddarach (yn enwedig i'r plant mwyaf agored i niwed).

B. Mae gwahaniaethau hiliol amlwg mewn cyfraddau presenoldeb yn parhau.

C. Mae presenoldeb mewn AP yn sylweddol waeth o'i gymharu ag ysgolion prif ffrwd.

I'W GADARNHAU

Diweddaru costau ymyriadau gwella presenoldeb yn Hydref 2025

£0 am Strategaeth AP/EOTAS

8 Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg yn Lloegr a Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth ar y cyd i wella addysg a dderbynnir gan blant yn y ddalfa ledled Cymru a Lloegr.

Pam?

A. Mae addysg i bobl ifanc yn y ddalfa yn annerbyniol o wael ac mae angen sylw brys gan y llywodraeth.

B. Gallai darparu addysg o ansawdd uchel leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

C. Mae gwahaniaethau hiliol amlwg yn nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa; mae addysg wael, felly, yn cael effaith anghymesur ar gymunedau penodol.

I'W GADARNHAU

£0